**CURADUR YR ORIEL**
**Theatr Clwyd**
Disgrifiad Swydd

Cytundeb Cyfnod Penodol – 31/03/2027

Teulu: Cefnogi'r Cwmni
Yn gyfrifol am: AMH.
Yn adrodd i: Cyfarwyddwr Artistig
Graddfa: M1

**Pwrpas y Swydd**
Mae Curadur yr Oriel yn gyfrifol am ddatblygu, rheoli a chyflwyno rhaglen artistig yr oriel. Mae hyn yn cynnwys curadu arddangosfeydd, ymchwilio a chaffael gweithiau celf, dehongli casgliadau a sicrhau bod gweledigaeth artistig, cenhadaeth addysgol ac amcanion strategol yr oriel yn cael eu cyflawni.

**Cyfrifoldebau allweddol**

- Cefnogi’r ymchwil a datblygu arddangosfeydd, cyhoeddiadau a digwyddiadau, yn ôl cyfarwyddyd y Cyfarwyddwr Artistig.
- Gweithio'n uniongyrchol gydag artistiaid a datblygu a rheoli prosiectau mannau arddangos Theatr Clwyd.
- Cyfrannu syniadau at gynllunio’r rhaglen yn gyffredinol ar gyfer y dyfodol.
- Meithrin, cydweithredu a chysylltu â benthycwyr, artistiaid, dylunwyr, sefydliadau partner a chydweithredwyr eraill ar gyfer arddangosfeydd a chomisiynau.
- Trefnu neu gynorthwyo gyda dylunio a chynllunio arddangosfeydd, gan gysylltu â dylunwyr a chontractwyr yn ôl y cyfarwyddyd.
- Gweithio i amserlenni sydd wedi’u pennu ar gyfer cynllunio, gosod a thynnu arddangosfeydd i lawr. Sicrhau bod gwybodaeth berthnasol am arddangosfeydd yn fanwl gywir ac yn gyfredol.
- Diweddaru data arddangosfeydd ar gyfer arddangosfeydd penodol, gan gynnwys yr hyn sydd ei angen ar gyfer catalogau, ceisiadau yswiriant a dibenion cludiant, gan weithio mewn cysylltiad ag artistiaid a threfnwyr yn ôl yr angen.
- Cynorthwyo gyda pharatoi contractau.
- Gweinyddu benthyciadau a gwirio cyflwr gweithiau celf a threfnu i fframio / mowntio yn ôl yr angen. Cysylltu â chludwyr amgueddfeydd / orielau yn ôl yr angen.
- Ysgrifennu, golygu a pharatoi labeli arddangosfeydd a thestunau gwybodaeth ar gyfer arddangosfeydd penodol yn ôl yr angen a chydlynu’r gwaith o gynhyrchu'r elfennau graffig yma.
- Cysylltu â'r tîm Marchnata ar ddeunydd cyhoeddusrwydd.
- Unrhyw ddyletswyddau eraill yn ôl yr angen.

**Manyleb y Person**

**Hanfodol**

- Profiad o weithio mewn oriel neu amgueddfa yn trefnu arddangosfeydd.
- Gwybodaeth a phrofiad clir o guradu.

- Diplomyddiaeth, hyblygrwydd, y gallu i gyd-dynnu'n dda â phobl a bod ag agwedd broffesiynol; y gallu i weithio'n annibynnol ac fel aelod o dîm.
- Y gallu i reoli prosiectau arddangosfeydd a chomisiynau artistiaid.
- Sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig a llafar rhagorol.
- Sylw rhagorol i fanylder.
- Dull o weithio cyflym ac effeithiol sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.
- Y gallu i weithio i derfynau amser tynn a chynnal dull tawel a threfnus o weithio.

**Dymunol**

- Cymhwyster gradd neu wybodaeth a phrofiad cyfatebol mewn disgyblaeth sy'n gysylltiedig â'r celfyddydau gweledol - celfyddyd gain, hanes celf neu hanes pensaernïaeth / dylunio yn ddelfrydol.
- Gwybodaeth ragorol am gelf a / neu ddylunio'r 20fed a'r 21ain ganrif.
- Rhwydwaith clir o gysylltiadau byd celf.
- Trwydded Yrru Lawn.
- Y gallu i ysgrifennu a sgwrsio yn y Gymraeg.